# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Betws Gwerful Goch

Dyddiad yr arolygiad: 11/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Betws Gwerful Goch yn darparu cymuned ddysgu gynhwysol a Chymreig lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r weledigaeth gytûn o fod yn 'un teulu' yn treiddio'n llwyddiannus drwy fywyd a gwaith yr ysgol, ar y cyd ag Ysgol Bro Elwern, sef ysgolion y ffederasiwn.

Mae arweinyddiaeth effeithiol ac ystyriol y pennaeth mewn gofal, gwaith ymroddedig y penaethiaid cynorthwyol a chefnogaeth ofalgar y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo cydweithio diwyd a chynhyrchiol rhwng cymunedau'r ddwy ysgol.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod eang o fedrau ar draws y meysydd dysgu, gan gynnwys yn eu mathemateg ac ysgrifennu sy'n datblygu'n gadarn. Ar y cyfan, mae staff yn cynnig cyfleoedd amserol i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain. Er hyn, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon bob tro'n rhoi arweiniad digon penodol i helpu disgyblion i wella eu gwaith na dyfnhau eu dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion a'r perthnasoedd gwaith cynhaliol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig. Mae staff yn fodelau iaith gwerthfawr, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygiad medrau Cymraeg bron bob disgybl erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol chwilfrydig sy'n arddangos agweddau cadarnhaol ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu'n frwd at fywyd a gwaith yr ysgol drwy ystod o grwpiau llais y disgybl. Mae hyn yn eu harfogi i gyfrannu'n gynyddol hyderus at wneud penderfyniadau a meithrin eu medrau arwain yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol i ddisgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu. Darperir trawstoriad cyfoethog o brofiadau dysgu diddorol a chyson, gan gynnwys gweithgareddau mentergarwch hynod effeithiol, i ddatblygu diddordebau a medrau disgyblion yn fwriadus. Er hyn, nid yw'r arferion addysgu mwyaf effeithiol na disgwyliadau staff bob amser yn ddigon cyson ar draws y ffederasiwn i sicrhau bod bob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posibl yn eu dysgu.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni, busnesau lleol a'r gymuned ehangach yn elfen hynod effeithiol o waith yr ysgol, gyda disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr at weithgareddau a digwyddiadau cymunedol bwriadus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith y ffederasiwn ac yn dangos ymwybyddiaeth gref o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd ac mae ganddynt

ddealltwriaeth glir a chytûn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni dulliau addysgu effeithiol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer bob disgybl

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd pellach yn eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026